



## Ysgol Pentreuchaf

### 13. Polisi Arddangos Gwaith Plant

#### Nod

Dangos parch at y plentyn a gwaith y plentyn, gan greu awyrgylch symbylus a chwaethus fydd yn ysbrydiolaeth i ddatblygiad ieithyddol ac esthetig y plentyn. Ennyn balchder yn y plentyn tuag at ei waith a gwaith eraill ac adlewyrchu y themau a astudir a thrwy hyn gynnig gwybodaeth am yr hyn a astudir.

#### Amcanion

1. Meithrin yn y plant yr awydd i arddangos eu gwaith yn chwaethus yn eu llyfrau.
2. Arddangos yn chwaethus mewn modd deniadol.
3. Sicrhau fod unrhyw labelu yn addas a chywir.
4. Dylid amcanu at adlewyrchu holl weithgareddau'r dosbarth - ieithyddol, mathemategol, gwyddonol, technolegol, celfyddydol a.y.y.b. mewn amrywiol ddulliau.
5. Nid oes raid i'r gwaith i gyd gael ei arddangos o fewn y dosbarth – bydd peth gwaith ar furiau'r rhodfeydd, y neuadd a.y.y.b.

#### Canllawiau

1. Mae angen arwain y plant i osod eu gwaith eu hunain yn daclus yn eu llyfrau.
2. Dylid gosod gwaith ar amrywiol gefndiroedd gan roi sylw i liw a ffurf gan gofio bod gan unigolion syniadau a chwaeth personol.
3. Bydd arddangosfeydd o'r dosbarthiadau yn cael eu symud i'r rhodfeydd, neuadd a.y.y.b. yn rheolaidd.
4. Disgwylir i'r labelu fod yn gywir, yn esiampl o daclusrwydd i'r plant, gan gofio pwysigrwydd brawddeg yn hytrach na geiriau moel, lle bo'r modd, gan gofio oedran a chrebwyll y plant. Byddwn yn amrywio dulliau labelu, gan wneud defnydd o'r cyfrifiadur, penawdau a.y.y.b.
5. Gan nad yw arddangos gwaith yn rhan o ddyletswyddau athrawon bellach, byddwn yn hyfforddi ac arwain cymhorthyddion i wneud y gwaith.

#### Casgliad

Trwy ystyried yr agweddau hyn o arddangos gwaith plant gosodir parch a chwaeth i'r gwaith. Bydd y safon a ddisgwylir o safbwynt yr athrawes hefyd yn ennyn balchder yn y plant tuag at eu gwaith. Mae arddangos chwaethus yn creu ethos esthetig mewn ysgol ac yn fodd i droi adeilad eitha llwm yn fan gysurus a deniadol i weithio ynddi - yr hyn y mae pob plentyn yn ei haeddu.

**Adolygir: Ionawr 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**